

Presenoldeb ac Absenoldebau

Presenoldeb

Yn Ysgol Gynradd Pentrefoelas, rydym yn ystyried presenoldeb a phrydlondeb yn elfen bwysig iawn er mwyn i'ch plentyn/plant fanteisio'n llawn ar addysg a bywyd yr ysgol. Mae'n bwysig felly bod y plant yma'n rheolaidd erbyn 8.50yb er mwyn cychwyn ar ddiwrnod cyffrous arall yn brydlon am 9.00y.b!

Rydym, wrth gwrs, yn deall bod plant yn sâl neu'n methu dod i'r ysgol am resymau eraill yn achlysurol. Pan fo hyn yn digwydd, a fuasech cystal a ffonio'r ysgol os gwelwch yn dda a danfon nodyn ysgrifenedig pan mae eich plentyn/plant yn dychwelyd. Gallwch gael ffurflen bwprpasol i'w lenwi os ydych yn trefnu gwyliau teuluol byr yn ystod tymor yr ysgol.

YR YSGOL SYDD A CHYFRIFOLDEB "*LOCO PARENTIS*" DROS EICH PLENTYN/PLANT O 8.50y.b. tan 3.40y.p.

Absenoldeb

Y mae rheoliadau'r Cynulliad Cenedlaethol parthed absenoldebau o'r ysgol yn datgan fod yn rhaid i ysgol dderbyn eglurhad gan rieni pan fo plentyn wedi bod yn absennol o'r ysgol. Felly, er mwyn cyd-fynd â'r canllawiau hynny, os na fyddwn yn derbyn eglurhad yn uniongyrchol gennych chi, boed hynny ar lafar neu ar ffurf nodyn, pan fydd eich plentyn wedi bod yn absennol o'r ysgol, bydd yr absenoldeb hwnnw yn cael ei nodi fel un "heb ei awdurdodi". Hyd yn oed os y derbynnir eglurhad gennych, mae'n bosibl y caiff yr absenoldeb ei nodi fel un "heb ei awdurdodi", os nad yw'r eglurhad yn un derbyniol.

Ystyrir y rhesymau canlynol yn ddilys ac fe nodir unrhyw absenoldeb fel un "awdurdodedig" - salwch, gwyliau teuluol, profedigaeth, argyfwng annisgwyl e.e. eira trwm, triniaeth feddygol neu ddeintyddol brys.

Ystyrir y rhesymau canlynol yn rhai annilys, ac felly fe nodir unrhyw absenoldeb fel un "heb ei awdurdodi" - "roedd yn helpu adref ddoe", "...bu'n rhaid i ni fynd i brynu esgidiau newydd iddo", ".....roedd wedi blino ar ôl i ni fynd i ffwrdd am y penwythnos".

Attendance and Absences

Attendance

At Ysgol Gynradd Pentrefoelas we consider attendance and punctuality to be vital so that your child/children can fully benefit from the education and experiences provided at school. It is important therefore that the pupils are here regularly by 8.50am in order to start on another exciting day promptly at 9.00a.m!

We, of course understand that children are ill or can't come to school for other reason occasionally. When this happens, would you please contact the school as soon as possible and send a note when the child/children return.

There is a form to be filled if you decide to arrange a short family holiday during term time.

THE SCHOOL IS in "*LOCO PARENTIS*" FROM 8.50a.m. UNTIL 3.40p.m.

Absence

National Assembly regulations stipulate that school must receive an explanation from parents regarding each and every absence from school. Therefore, in accordance with those guidelines, if we do not receive an explanation from you directly, be it verbally or in note form, an absence from school will certainly be recorded in the register as an "unauthorised absence". Even if we do receive a note from you, it is possible that the absence may be recorded as "unauthorised", depending on the reason for the absence.

The following reasons are deemed valid and would be noted as authorised absences - illness, family holidays, bereavement, an unavoidable emergency e.g. heavy snow etc., emergency medical or dental treatment.

The following reasons are deemed to be invalid and the absence would be noted as an unauthorised one - ".....was helping at home yesterday", "we had to go to buy new shoes", "..... was tired after we had been away for the weekend".